**Rhif:** WG39862

# Dogfen Ymgynghori
Llywodraeth Cymru

# Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2020

Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 13 Chwefror 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Rydym am gael eich barn ar y cynigion na fydd gofyn, bellach, i gyrff llywodraethu anfon canlyniadau'r asesiadau cenedlaethol ar-lein at eu hawdurdod lleol. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio / postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **13 Chwefror 2020** fan bellaf. |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol<br>https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol?_ga=2.234903044.403843376.1578571851-634711521.1569942447<br><br>Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/ymgyngoriadau. Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais. |
| **Manylion cyswllt** | Am, ragor o wybodaeth, cysylltwch â:<br><br>Y Gangen Profion<br>Isadran y Cwricwlwm ac Asesu<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: PDRC@llyw.cymru |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon, yn unol â'u pwerau statudol, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb yr anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi, a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
CAERDYDD. CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or
0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

**Cefndir**

**Y Cynnig**

**Camau Nesaf**

Atodiad A: Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020 – ddim yn y ddogfen

Atodiad B: Asesiad Effaith Rheoleiddiol – ddim yn y ddogfen

## Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi safonau llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob dysgwr, ledled Cymru. I'r perwyl hwnnw, mae'r Papur Gwyn ar y cwricwlwm gweddnewidiol (*Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*) yn amlinellu ein cynnig y dylai llythrennedd a rhifedd ddod yn ofynion trawsbynciol statudol ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi ein bwriad polisi i ailffocysu asesiadau i sicrhau bod dysgwyr yn deall sut maent yn perfformio a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf er mwyn symud ymlaen.

2. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi safonau llythrennedd a rhifedd, yn 2013 cyflwynwyd Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol statudol ar gyfer pob dysgwr ym mlynyddoedd 2-9 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Yn 2017, cyhoeddom y byddai'r profion papur yn cael eu diddymu'n raddol a'u disodli gan brofion addasol ar-lein, a elwir yn 'asesiadau personol'. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi'n dda – mae'r asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen yn cael eu gwneud ar-lein eisoes, a dim ond y prawf Rhesymu Rhifiadol sy'n parhau i fod ar bapur. Ar ôl Gorffennaf 2020, bydd yr holl asesiadau yn cael eu gwneud ar-lein.

3. Mae'r asesiadau personol yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i wneud cynnydd, drwy ddeall yr hyn y gallant ei gyflawni, y pethau y mae angen iddynt weithio arnynt, a'u camau nesaf. Drwy addasu'r cwestiynau ar sail ymatebion y dysgwyr, mae'r asesiadau personol yn gallu rhoi gwybodaeth fanwl am gryfderau'r dysgwr unigol a'r meysydd y mae angen eu gwella. Darperir y wybodaeth hon yn uniongyrchol i'r ysgol fel y gellir ei defnyddio i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu. Yn unol â'r ymdrech i ailsefydlu prif ddiben asesu a'i ddatgysylltu o atebolrwydd lefel uchel, rydym wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi data asesiadau athrawon a'r profion cenedlaethol yn rheolaidd ar lefel ysgol ac awdurdod lleol.

## Y Cynnig

4. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol anfon canlyniadau'r profion cenedlaethol i'w awdurdod lleol. Mae hyn yn seiliedig ar y gofynion gweinyddol ar gyfer y profion papur lle mae gan yr awdurdod lleol rôl o ran cefnogi'r gwaith o gasglu sgoriau'r profion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am yr asesiadau ar-lein personol gan fod y broses o drosglwyddo data yn digwydd yn awtomatig h.y. nid oes angen trosglwyddo data ‘â llaw’. Felly, nid yw’r gofyniad bellach yn bodoli ar gyfer yr asesiadau ar-lein – cynigiwn, felly, ei ddileu. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn yn atal ysgolion rhag rhannu eu data asesu personol gyda'u hawdurdod lleol yn wirfoddol os byddant o’r farn fod hynny’n fuddiol.

5. Rydym wedi cyhoeddi'r Rheoliadau drafft ynghyd â'r ddogfen hon ar ein gwefan yn ogystal ag asesiad effaith rheoleiddiol sy'n nodi costau a manteision y cynnig hwn.

## Camau Nesaf

6. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich sylwadau ar y cynnig hwn. Dylid anfon ymatebion dros e-bost / drwy’r post i gyrraedd erbyn **13 Chwefror 2020** fan bellaf.

7. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, cynigiwn y bydd y newid yn dod i rym cyn diwedd blwyddyn ysgol 2019/20. Felly ni fyddai'n ofynnol i ysgolion rannu canlyniadau'r asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen ar-lein. Fodd bynnag, gan fod y prawf Rhesymu Rhifiadol yn parhau i fod ar bapur ar gyfer y flwyddyn ysgol 2019/20, bydd y gofyniad i rannu'r data ar gyfer y prawf hwnnw yn parhau.